

Cronfa Gymunedol y Loteri – Newyddion Gwych i Golygfa Gwydyr!

Ar Fedi'r 1af, fe ddechreuodd pennod newydd a chyffrous i Golygfa Gwydyr. Gyda diolch i grant gan Gronfa Gymunedol y Loteri, rydym wedi llwyddo i lansio ein prosiect newydd, **Meithrin Natur**, **Meithrin Cymuned** a fydd ar waith am bedair blynedd.

Wrth gwrs mae hyn yn newyddion gwych i Golygfa Gwydyr, ac, yn bwysicaf oll, i'n cymuned. Gyda diolch i'r cyllid, gallwn barhau gydag ein cyfres o weithgareddau llesiant, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan hefyd ddatblygu Caerdroia i greu adnodd coedwig hyd yn oed mwy croesawgar, cynaliadwy a bioamrywiol i bawb ei fwynhau.

Dros y pedair blynedd nesaf, hoffem weld hyd yn oed mwy o drigolion lleol yn cymryd rhan felly byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi. P'un a oes gennych chi syniad, eich bod yn awyddus i wirfoddoli, am ymuno gyda gweithgareddau, neu os ydych chi'n chwilfrydig am ein gwaith, dewch draw am sgwrs.

Anfonwch neges neu galwch heibio i'n canolfan gymunedol yn Llanrwst. Mae Golygfa Gwydyr yn eiddo i'r gymuned, a byddem wrth ein bodd pe baech chi'n rhan o'n prosiect newydd.



Cysylltu Pobl, Lle a Natur

Ym mis Gorffennaf 2024, dechreuodd Golygfa Gwydyr brosiect Rhwydweithiau Natur cyffrous am gyfnod o 18 mis, gyda diolch i gyllid ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri.

Ers hynny, bu'n bleser mawr gweld cymaint o bobl yn cymryd rhan. Bu i dros 1,400 o bobl gymryd rhan mewn 75 digwyddiad a gweithgareddau cymunedol, gan hybu llesiant, darganfod mwy am ein hamgylchedd naturiol a chlodfori treftadaeth gyfoethog Coedwig Gwydir.

At hyn, bu i'r prosiect gryfhau ein partneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, gan helpu i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd y goedwig. Gyda'n gilydd, rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol yn adfer cynefinoedd a hyrwyddo ffyrdd mwy cynaliadwy o reoli a mwynhau'r lle arbennig hwn.



Yn bwysicaf oll, mae'r prosiect wedi meithrin cysylltiad agosach rhwng pobl a'r goedwig – a'i gilydd – gan greu ymdeimlad cryfach o gysylltiad, cymuned a pherchnogaeth ar y cyd o'r amgylchedd gwych sydd ar garreg ein drws.



Cymorth Banc Bwyd

Roeddem yn siomedig o weld Banc Bwyd Conwy yn cau'r haf hwn, ond rydym yn falch o ddweud ein bod ni wedi dod o hyd i bartner newydd yn ddiweddar, **Hope Restored**, a fydd yn ein helpu i ddarparu pecynnau bwyd pob wythnos. Gan hynny, gallwn barhau i gefnogi pobl leol a theuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd. Os oes angen pecyn bwyd arnoch chi, cofiwch gysylltu gyda ni. Fe wnawn ni ein gorau glas i helpu a gofalu eich bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnoch chi.

Lles mewn Natur: Sesiynau gwirfoddoli

Diolch yn fawr iawn i'r holl wirfoddolwyr wnaeth dorchu eu llewys i'n helpu yng ngardd y goedwig. Fe aethom ati i greu nifer o wrychoedd marw, sy'n dechneg gynaliadwy o aildddefnyddio tocion coediog i greu gwrych naturiol ecogyfeillgar sy'n cefnogi bywyd gwyllt. Mae gwrychoedd marw yn darparu llochesi ar gyfer nythu; yn denu pryfed i ddarparu bwyd i famaliaid ac mae'r coed sy'n pydru yn annog mwsoglau, cennau a ffyngau; a hefyd amddiffyn coed Yw ifanc a gafodd eu plannu'n gynharach yn y flwyddyn.

Yn ogystal, bu i'r gwirfoddolwyr gynnig help llaw gyda chwynnu'r gwelyau ffrwyth a meithrin y mafon i ddringo a lledaenu, plannu 10 coeden Geirios ar y llwybr i gadairy Cawr, a chlirio'r llwybrau.

Fe wnaethom gyfuno gwaith y gwirfoddolwyr gyda rhywfaint o ymwybyddiaeth ofalgar yn y goedwig er mwyn i bobl ymlacio a gwirio eu lles eu hunain yn dilyn y gwaith.



Nadolig Tawel

Unwaith eto, roedd ein hail gyfres Nadolig Tawel o weithgareddau Nadolig ac ymwybyddiaeth ofalgar yn llwyddiannus. Fe wnaethom fwynhau sesiynau creu torchau, creu cardiau, gwaith metel a gwaith lledr. Wrth gwrs gall y Nadolig fod yn gyfnod llawn hwyl a llawenydd ond gall hefyd fod yn gyfnod o dristwch a straen.

Nod y sesiynau hyn ydy bod yn ystyriol, i feithrin ac i hybu hunan-ofal. Rydym yn edrych ymlaen at drefnu'r sesiynau eto eleni ym mis Tachwedd a Rhagfyr. Cadwch lygad am weithgareddau newydd a thraddodiadol.



Archwilio a Darlunio

Ym mis Ionawr, cawsom gefnogi a chydweithio gyda'r artist lleol, Chloe Needham a Creu Conwy i gynnal cwrs natur 6 wythnos o hyd yn ymwneud â natur yng Ngolygfa Gwydyr. Bu i'r rheiny wnaeth gymryd rhan herio'r tywydd gaeafol i gymryd rhan mewn sesiwn darlunio yng Nghaerdroia cyn bwrw iddi i gynnal arddangosfa dros dro llwyddiannus dros ben o'u gwaith yn ôl yng Ngolygfa Gwydyr.

Gallai mis Ionawr fod yn adeg anodd o'r flwyddyn ond gall defnyddio'ch doniau creadigrwydd leddfu pethau felly cadwch lygaid am sesiynau celf/creadigol ym mis Ionawr 2027.

Sesiynau Cwnsela

Roedd modd inni, a gallwn barhau i, gynnig nifer gyfyngedig o sesiynau cwnsela am ddim gyda chynghorwyr cymwys. I wybod mwy, e-bostiwch:

✉ sianw@golygfagwydyr.org

Sesiynau Llesiant ar gyfer Hydref 2026 – Gaeaf 2027

• Paramaethu gyda Kirsty

Hydref y 1af yng Nghaerdroia, Coedwig Gwydir

• Fforio gyda Jules

Hydref y 15fed yng Nghaerdroia. Coedwig Gwydir

• Nadolig Tawel

Cadwch lygad am sesiynau ym mis Tachwedd a Rhagfyr

• Blwyddyn Newydd Creadigol

Cadwch lygad am sesiynau ym mis Ionawr



Caerdroia

Mae chwe phanel newydd wedi'u gosod o amgylch safle'r goedwig, gyda gwybodaeth am: y safle yn gyffredinol; gardd y goedwig; llesiant; ffractalau; hanes tân y goedwig; a'r cod cefn gwlad. Hefyd, fe wnaethom greu mainc newydd ger mynediad gardd y goedwig gan ddefnyddio coed wedi'i dorri ar y safle.

Rydym yn parhau gyda'r gwaith rheoli a chlirio yn dilyn coed wedi'u difrodi gan Storm Darrah yn 2024 a stormydd pellach yn 2025 a 2026. Mae'r storm yn naturiol wedi agor y safle ar gyfer datblygu'r ardd goedwig lle mae coed ffrwythau ac aeron yn parhau i gael eu plannu. Cawsom gynhaef da o riwbob, mwyr duon a pherlysiau yn ystod yr haf hwn ynghyd â phlanhigion gwyllt y gellir eu fforio.

Dros yr haf fe wnaethom gynnal sesiynau ysgol goedwig gyda Caru Coed. Roedd pob sesiwn yn llawn a bu i'r plant a'u rhieni eu mwynhau'n fawr.

Rydym yn edrych ymlaen at weld mwy o bobl yng ngardd y goedwig yn fuan.



Cwrdd â gwirfoddolwr – Ron



Yn dilyn fy ymddeoliad ychydig flynyddoedd yn ôl, roeddwn yn chwilio am rywbeth a fyddai'n fy annog i fentro allan, yn fy helpu i gwrdd â phobl, ac yn rhoi cyfle imi gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n fodd imi ymlacio a chyflawni rhywbeth gwerth chweil. Rydw i wastad wedi mwynhau gwaith ymarferol, felly roeddwn i wrth fy modd pan gynigiodd Golygfa Gwydyr y cyfle i mi gymryd rhan mewn cwrs llif gadwyn, a arweiniodd at ennill fy Nhystysgrif Llif Gadwyn Lefel 2 NPTC.

Bellach gallaf roi'r sgiliau hynny, a fy hen sgiliau yn ogystal, ar waith drwy ymuno mewn sesiynau gwirfoddoli rheolaidd yn y goedwig gyda Golygfa Gwydyr. Mae'n wych gallu gwneud rhywbeth sy'n helpu i ofalu am a gwella ein coedwig leol, wrth dreulio amser gyda grŵp cyfeillgar o bobl. Yn wir, mae gwirfoddoli gyda Golygfa Gwydyr wedi rhoi gwir ymdeimlad o bwrpas imi – ac rydw i'n edrych ymlaen at roi cynnig ar fwy o weithgareddau yn y goedwig!


Gŵyl Gerdded Trefriw (TWF)

Yr haf hwn, bu inni gydweithio gyda Gŵyl Gerdded Trefriw a gynhaliodd taith gerdded o faes parcio Mainc Llifio hyd at Gaerdroia cyn mwynhau tamaid o ginio a sesiwn creu daliwr breuddwydion. Y gobaith ydy y bydd hyn yn arwain at fwy o deithiau ar y cyd yn y dyfodol.

Gwefan Newydd

Ydych chi wedi bwrw golwg ar ein gwefan ar ei newydd wedd eto? Mae edrychiad a naws newydd sbon iddi, ac mae'n llawer haws dod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnoch. Gallwch weld digonedd o wybodaeth ac ati am ein digwyddiadau sydd ar y gweill a darllen mwy am waith Golygfa Gwydyr. Ewch i gael golwg a rhannwch eich barn gyda ni.

🔗 golygfagwydyr.org/cy



Darganfod awyr y nos

Newyddion cyffrous: Mae cynlluniau ar y gweill i barhau gydag ein prosiect Darganfod Awyr y Nos. Cadwch lygad am gyfleoedd yn y dyfodol i ddysgu am bwysigrwydd amddiffyn ein hawyr dywyll. Mae cyfres o syniadau wedi'u cynnig megis ail-gyflwyno'r planetariwm, a dysgu am fywyd gwyllt nosol, i daith gerdded bioffloroleuedd gyda'r nos yng Nghaerdroia, a chyfres o sgysiau o dan arweiniad arbenigwyr.

Byddwn yn rhannu manylion maes o law. Oes yna unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud ag awyr y nos yr hoffech chi gymryd rhan ynddo? Rhowch wybod inni!

✉ sarahs@golygfagwydyr.org

Beth rydym yn ei gynnig

- Toiled, WiFi, Te a Choffi
- Gweithgareddau a Chyrsiau Lles
- Cyfleoedd Cwnsela
- Rheoli Coetir
- Cydweithfa Tanwydd Coed Cymunedol
- Gweithgorau
- Therapi Tylino
- Cyfleoedd Gwirfoddoli

Dydd Llun

Grŵp Crefftau : 10:30 - 12:00

Dydd Mawrth

Sesiynau Cerddoriaeth: 10:00 - 12:00

Dydd Iau

Sied y Dynion: 10:30 - 12:30

Dydd Gwener

Grŵp Cyfeillgarwch: 13:30 - 15:00



Canolfannau Clyd

Aethom ati i gynnal tri sesiwn Canolfan Clyd pob wythnos o Ragfyr 2025 hyd at Chwefror 2026 — crefftau ar ddydd Llun, cerddoriaeth ar ddydd Mawrth, ac ein Grŵp Cyfeillgarwch ar ddydd Gwener. Bu i bawb fwynhau bwyd, diodydd a bisgedi, wedi'i ddarparu gan Gaffi Doti, Becws Scilicorns a Fiona Puleston. Diolch i CBSC am y cyllid ac i arweinwyr ein sesiynau am gynnal gweithgareddau mor wych.

Byddwn yn cyhoeddi Canolfannau Clyd 2026 yn y man — cadwch lygad ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol a hysbysfyrddau lleol i weld y diweddaraf.

✉ sarahs@golygfagwydyr.org

Rhodd gan Glwb Pêl-droed Llanrwst

Diolch yn fawr iawn i Glwb Pêl-droed Llanrwst am eu rhodd hael tuag at ein gwaith cymunedol.



Eich Coop

Diolch i bawb wnaeth ddewis Golygfa Gwydyr i dderbyn cyfraniad lleol. Mae yna dal cyfle ichi wneud hynny os nad ydych chi wedi gwneud yn barod. Bydd y cynllun yn dod i ben mis Tachwedd pan gaiff y cyllid wedi'i gasglu gan y Coop ei rannu rhwng yr achosion lleol. Defnyddiwch y ddolen isod i gofrestru.

▶ membership.coop.co.uk/causes/95835

Yn y cyfamser, mae Band GG yn parhau i chwarae yng nghyntedd y Coop pob dydd Gwener olaf y mis. Beth am gynllunio'ch siopau i gyd-fynd â hyn gan ddawnsio wrth ddewis eich siopa.



Sgrôl Migneint

Cyfrannodd ein grŵp crefftau eu sgiliau creadigol i greu map deunydd 15 medr sy'n olrhain Afon Conwy o'r tarddiad i'r môr. Gallwch ei weld yng Ngerddi Bodnant tan Dachwedd yr 8fed 2026, cyn y bydd yn symud i Tŷ Aberconwy.

Mae ein grŵp crefftau yn cwrdd bob dydd Llun am 10:30am ac mae croeso i bawb ddod draw i ddysgu crefft newydd neu orffen prosiect presennol.

✉ sarahs@golygfagwydyr.org

Mae Golygfa Gwydyr yn fenter gymdeithasol yn Llanrwst gafodd ei sefydlu yn 2004. Rydym ni'n fudiad nid-er-elw gyda'r gymuned yn ganolog i'n gwaith. Mae ein gwerthoedd yn canolbwyntio ar bobl y gymuned yn cymryd rhan, arfer gwrth-wahaniaethol ac arfer sydd â'r sylw canolog ar yr unigolyn. Rydym ni'n creu incwm trwy logi ystafelloedd, gwerthu tocynnau ar gyfer digwyddiadau, cyrsiau a gwaith codi arian ond rydym ni'n dibynnu llawer ar gymorth grantiau. Rydym ni'n cyflogi tri swyddog prosiect sy'n adrodd i fwrdd o Gyfarwyddwyr sy'n cynnwys 8 o bobl leol y gymuned.



Roger Davies

Ysgrifennydd y Cwmni a Rheolwr Cyffredinol

☎ +44 (0) 1492 642110

✉ rogerd@golygfagwydyr.org

Follow Us on Social Media

📱 /GolygfaGwydyrLlanrwst

🌐 /golygfagwydyr_official

Golygfa Gwydyr

Stryd yr Arad

Llanrwst

LL26 0AC

☎ +44 (0) 1492 642110

✉ info@golygfagwydyr.org

🌐 golygfagwydyr.org



Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government